monmouthshire
sir fynwy

# Cyflawniadau

## Symud Sir Fynwy Ymlaen

Rydym am fod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ym mhob cam o'u bywydau. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda, ac ochr yn ochr â, ein cymunedau i gyflawni hyn. Dyma'r pwrpas clir a sefydlwyd gan ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol.

Dros y tudalennau canlynol, gallwch ddarllen am rai o'n cyflawniadau. Os hoffech gael rhagor o fanylion, gallwch edrych ar yr hunanasesiadau a gynhaliwn yn flynyddol. Mae'r rhain ar gael yma:

**www.monmouthshire.gov.uk/cy/cynllun-gwella**



monmouthshire
sir fynwy

# Lle Teg i yw

Lle Teg

Byw lle mae effeithiau tlodi ac anghydraddoldeb wedi'u lleihau

**Dywedon ni y bydden ni'n cynnig prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd ac yn ymestyn cefnogaeth yn ystod gwyliau'r ysgol.**

- Gall pob disgybl ysgol gynradd nawr gael brecwast am ddim a chinio ffres wedi'i goginio. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y brecwast wedi cynyddu o 64% yn 2022 i 75% yn 2026, ac rydym yn disgwyl i hyn gefnogi iechyd, lles a dysgu disgyblion.
- Mae ein rhaglenni Bwyd a Hwyl yn darparu bwyd a gweithgareddau chwarae am ddim yn ystod gwyliau'r haf. Ynghyd â'n cynlluniau eraill, rhoddodd hyn gyfle i dros 2,000 o blant gael hwyl, gwneud ffrindiau newydd a chael eu cefnogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Dywedon ni y bydden ni'n darparu cyfleoedd i gefnogi disgyblion o deuluoedd incwm isel i gyflawni eu potensial.**

- Rydym bellach yn darparu gofal plant Dechrau'n Deg am ddim ar draws 41 o safleoedd trwy weithio gyda darparwyr gofal plant, gan gynnwys dau leoliad cyfrwng Cymraeg, gan helpu plant i gael dechrau cryf a chefnogi rhieni sydd eisiau dychwelyd i'r gwaith.

**Dywedon ni y bydden ni'n sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth ariannol y maen yn haeddu.**

- Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi helpu pobl ledled y sir i gael gwybodaeth a chymorth i ymdopi ag effeithiau costau byw uwch.
- Rydym wedi cynyddu cyllid ar gyfer Cyngor ar Bopeth Sir Fynwy o 40%. Gwasanaeth hanfodol sydd wedi helpu aelwydydd a theuluoedd lleol i ddileu mwy na £340,000 o ddyled a sicrhau dros £4 miliwn mewn incwm ychwanegol.

**Dywedon ni y bydden ni'n cynyddu cyflogaeth i bobl anabl.**

- Ym mis Mehefin 2024, daethom yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2). Cynigir cyfweliad gwarantedig i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni meini prawf hanfodol y swydd, gan helpu i wneud ein recriwtio'n decach ac yn fwy cynhwysol.

**Dywedon ni y bydden ni'n darparu llwybrau at ddewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw ac ymarfer corff.**

- Mae mwy na 1770 o drigolion wedi gwella eu hiechyd a'u ffitrwydd drwy'r Cynllun Atgyfeirio Ymarfer Corff Cenedlaethol ers 2022. Yn ystod 2024/25, dywedodd



75% o'r bobl a gwblhaodd y cynllun wrthym eu bod yn teimlo'n hapusach ac yn iachach o ganlyniad.

- Rydym wedi ei gwneud hi'n haws i fod yn iachach trwy ostyngiadau Pasbort i Hamdden symlach sydd wedi helpu i gynyddu aelodaeth o'n canolfannau hamdden 109% ers 2022 - dyna 5,334 o bobl ychwanegol sy'n defnyddio ein cyfleusterau.

**Dywedon ni y bydden ni'n ei gwneud hi'n haws i ddinasyddion gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau.**

- Mae ein platfform newydd Gadewch i Ni Sgwrsio am Sir Fynwy, a lansiwyd yn 2025, yn dod â'r holl ymgynghoriadau i un lle hygyrch. Mae'n helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n ymateb. Mae 930 o bobl eisoes wedi cofrestru i dderbyn diweddariadau rheolaidd.
- Rydym bellach yn cynnal arolygon preswylwyr rheolaidd i ddarganfod beth yw barn pobl am ein gwasanaethau ac a yw eu barn yn cael ei hystyried. Yn 2025, roedd 29% o breswylwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei hystyried — cynnydd o 4% ar y flwyddyn flaenorol.

**Dywedon ni y bydden ni'n darparu mwy o gyfleoedd i bobl siarad a dysgu Cymraeg.**

- Gall mwy o staff gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg nawr diolch i hyfforddiant a recriwtio gwell. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir hefyd wedi cynyddu o 18.4% i 19.7%.
- Rydym yn cynyddu lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddiwallu'r galw cynyddol.

monmouthshire
sir fynwy

# Lle Gwyrdd i Fyw

**Lle Gwyrdd**

Byw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur.



**Dywedon ni y bydden ni'n lleihau ein hallyriadau carbon ac yn cynyddu cynhyrchu adnewyddadwy.**

- Bellach mae gennym gynllun wedi'i gostio ar gyfer lleihau allyriadau ar draws ein hadeiladau a'n tir.
- Cynyddodd y swm o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd gennym 16% dros y tair blynedd diwethaf, gan gyrraedd 5,536,808,000 kWh — digon i bweru tua 1,700 o gartrefi am flwyddyn gyfan.
- Rydym wedi dyblu cyfran ein fflyd cerbydau sy'n defnyddio technoleg allyriadau isel iawn ers 2022, a hynny o 8% i 16%, gan ein helpu i leihau llygredd a darparu gwasanaethau glanach.
- Cawson ni'r sgôr uchaf o unrhyw Gyngor yn y DU am ein gwaith ar leihau gwastraff a bwyd yng Nghardiau Sgorio Gweithredu Hinsawdd annibynnol y Cyngor. Dyma gydnabyddiaeth wych o'r cynnydd rydyn ni'n ei wneud gyda'n cymunedau.

**Dywedon ni y bydden ni'n gwella llwybrau cerdded a beicio.**

- Dros y pedair blynedd diwethaf, rydym wedi sicrhau mwy na £24 miliwn mewn cyllid ar gyfer ein prosiectau Teithio Llesol. Bellach, mae gennym dros 100 o lwybrau teithio llesol ledled y sir, gyda 23 arall yn cael eu datblygu. Mae defnydd o'r llwybrau hyn wedi cynyddu 4.1%, gan helpu mwy o bobl i ddewis cerdded a beicio, defnyddio eu ceir llai, a gwneud mwy o weithgarwch corfforol yn rhan o fywyd bob dydd.

**Dywedon ni y bydden ni'n ehangu mynediad at seilwaith gwefru trydan ac yn cefnogi newid moddol.**

- Rydym wedi mapio allan pa wefru cerbydau trydan fydd ei angen ar y sir yn y dyfodol ac wedi archwilio opsiynau gwefru stryd.
- Unwaith y bydd y rhain ar waith, bydd pobl heb fynedfeydd yn gallu elwa o wefru cartref cost is, gan wneud y newid i gerbydau trydan yn decach ac yn haws.

**Dywedon ni y bydden ni'n arwain adferiad natur ac yn gwella iechyd afonydd.**

- Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol o wella iechyd ein hafonydd.
- Mae peiriannau tynnu ffosffadau bellach yn cael eu gosod yn Llan-ffwyst a Threfynwy, gan helpu i hybu ansawdd dŵr yn afonydd Gwy a'r Wysg a chefnogi ecosystemau afonydd iachach a mwy gwydn.



- Rydym yn bartneriaid gweithredol o fewn Bwrdd Rheoli Maetholion Gwy a Phartneriaeth Dalgylch Wysg sy'n ceisio gwella ansawdd dŵr yn ein hafonydd.

**Dywedon ni y bydden ni'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo lliniaru llifogydd yn naturiol.**

- Rydym yn gweithio gyda sefydliadau partner ar brosiectau sy'n defnyddio dulliau naturiol o reoli llifogydd — fel storio mwy o ddŵr yn y pridd ac arafu pa mor gyflym y mae'n cyrraedd afonydd — i leihau'r risg o lifogydd, helpu i amddiffyn cartrefi a chymunedau rhag glaw trymach, a chreu tirweddau mwy gwydn ar gyfer y dyfodol.

**Dywedon ni y bydden ni'n hyrwyddo mynediad cymunedol at dir ar gyfer tyfu bwyd.**

- Ers 2022, rydym wedi helpu i wella, creu neu adfywio mwy na 130 o leiniau rhandir ar draws chwe safle yn Sir Fynwy, gyda chefnogaeth Grant Cymorth Rhandiroedd Llywodraeth Cymru.
- Mae hyn yn golygu bod gan fwy o drigolion fynediad at fannau croesawgar i dyfu bwyd, mwynhau natur a chysylltu â'u cymuned.

**Dywedon ni y bydden ni'n hyrwyddo amaethyddiaeth leol gynaliadwy ac yn cynyddu'r defnydd o fwyd lleol mewn ysgolion a gofal cymdeithasol.**

- Drwy'r cynllun Llysiau Cymru mewn Ysgolion, rydym wedi bod yn gweithio gyda ffermwyr lleol i ddod â mwy o fwyd a dyfir yn lleol i ysgolion.
- Hyd yn hyn, mae disgyblion wedi mwynhau dros 200,000 o ddognau o lysiau organig Cymreig — gan ddarparu prydau ffres ac iach wrth gefnogi tyfwyr lleol.

monmouthshire
sir fynwy

# Lle Ffyiannus ac Uchelgeisiol

Lle Ffyniannus ac Uchelgeisiol

Lle mae canol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

**Dywedon ni y bydden ni'n datblygu cynlluniau creu lleoedd ac yn denu buddsoddiad i gadw canol trefi'n fywiog.**

- Rydym wedi gweithio gyda thrigolion, busnesau a Chynghorau Cymuned a Thref i gyd-gynhyrchu cynlluniau creu lle ar gyfer Trefynwy, y Fenni a Magwyr gyda Gwndy, ac ar hyn o bryd rydym yn datblygu Cynllun Creu Lle Cil-y-Coed.
- Mae cyfradd ein lleoedd gwag yng nghanol ein trefi ar hyn o bryd yn 10.4% — yn well na chyfartaledd y DU o 13.7%, ond yn dal yn uwch nag yr hoffem.
- Ers 2022, rydym wedi sicrhau £2.4 miliwn o Grant Trawsnewid Trefi Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru i gefnogi adfywio canol trefi. Diolch i'r cyllid hwn, rydym wedi gwella neu ailddefnyddio bron i 30 o adeiladau yng nghanol ein trefi.
- Rydym hefyd wedi sicrhau £2.2 miliwn pellach o Gronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU a Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau yn 2026/27.

**Dywedon ni y bydden ni'n cefnogi'r amwynderau a'r digwyddiadau sy'n denu pobl i'n trefi.**

- Rydym wedi sicrhau buddsoddiad o £2.8 miliwn — gan gynnwys £1.5 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol — i drawsnewid y Neuadd Sirol, Trefynwy, yn amgueddfa gymunedol ysbrydoledig a chanolfan ddysgu fywiog, gan wella cynnig diwylliannol y sir i drigolion ac ymwelwyr.
- Rydym wedi mabwysiadu Strategaeth Ddiwylliant i amddiffyn, cefnogi a thyfu diwylliant ar draws y sir mewn ffordd gydlynol a chynhwysol sy'n fuddiol i gymunedau, lles a'r economi leol.
- Mae ein Strategaeth Dreftadaeth yn ein helpu i ofalu am safleoedd hanesyddol ledled y sir a'u gwella. Rydym wedi ychwanegu mwy o wybodaeth i ymwelwyr, ynghyd â gweithgareddau dysgu a digwyddiadau.
- Rydym wedi cefnogi a hyrwyddo gwyliau celfyddydau a cherddoriaeth, sioeau theatr, chwaraeon lleol a gweithgareddau awyr agored. Mae hyn yn dod â mwy o bobl i'n trefi a'n pentrefi, gan gefnogi lles a'r economi leol.



**Dywedon ni y bydden ni'n parhau i gefnogi twristiaeth a gwella profiad ymwelwyr.**

- Rydym wedi datblygu strategaeth newydd i arwain dyfodol twristiaeth yn Sir Fynwy, gan helpu'r sector i dyfu mewn ffordd sy'n fuddiol i'n cymunedau.
- Dros y tair blynedd diwethaf, mae mwy na chant o swyddi twristiaeth newydd wedi'u creu.
- Mae cyflogaeth yn y sector wedi codi 2% ers 2022, o 3,356 i 3,422 o bobl, gan gyfrannu at effaith economaidd ehangach o £352 miliwn.

**Dywedon ni y bydden ni'n helpu trigolion o bob oed i ennill sgiliau ar gyfer gwaith neu ddechrau busnes.**

- Rydym wedi lansio rhaglen newydd sy'n dod â dysgu STEM ymarferol i ysgolion. Mae disgyblion bellach yn cael archwilio roboteg, codio ac argraffu 3D, gyda chefnogaeth athrawon hyfforddedig yn barod i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o dechnolegwyr.
- Rydym hefyd wedi cryfhau cysylltiadau â chyflogwyr mawr i helpu pobl ifanc i ddod o hyd i lwybrau clir i yrfaoedd yn y dyfodol.
- Rydym wedi sicrhau cefnogaeth drwy'r Gronfa Twf Lleol i fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer Canolfan Sgiliau newydd yn Sir Fynwy, gan drawsnewid safle sydd heb ei ddefnyddio'n ddigonol yn ganolfan ddysgu fodern a fydd yn helpu trigolion i ennill y sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr lleol a chryfhau twf economaidd hirdymor y sir.
- Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cefnogi bron i 2,500 o bobl i ddysgu sgiliau newydd ac wedi helpu dros 300 o bobl i gael gwaith. Mae hyn yn agor cyfleoedd newydd i bobl o bob oed a chefndir ffynnu mewn gwaith.

monmouthshire
sir fynwy

# Lle Ffyiannus ac Uchelgeisiol






**Dywedon ni y bydden ni'n darparu mwy o gefnogaeth i bobl sydd eisiau dechrau eu busnes eu hunain.**

- Rydym wedi cefnogi ychydig dros 300 o fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes i dyfu a llwyddo dros y tair blynedd diwethaf.
- Rydym yn falch bod 60.3% o fusnesau newydd yn Sir Fynwy yn dal i fynd yn gryf ar ôl tair blynedd, llawer uwch na chyfradd y DU o 52.9% a chyfradd Cymru o 50%. Mae hyn yn dangos cryfder, gwydnwch a chreadigrwydd ein cymuned fusnes leol.

**Dywedon ni y bydden ni'n datblygu ac yn ariannu system drafnidiaeth fodern, hygyrch ac integredig.**

- Rydym wedi datblygu Strategaeth Trafnidiaeth Leol newydd ac wedi helpu i lunio'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol gyda'r nod o'i gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod.
- Ers 2022, rydym hefyd wedi sicrhau dros £35 miliwn ar gyfer prosiectau teithio ledled Sir Fynwy. Mae hyn yn cynnwys Teithio Llesol, ffyrdd gwell, seilwaith bysiau gwell, a mwy o hyfforddiant diogelwch ffyrdd cymunedol - pob un wedi'i anelu at wneud teithio'n fwy diogel, yn haws ac yn fwy hygyrch i bawb.

**Dywedon ni y bydden ni'n cynnal a gwella seilwaith priffyrdd allweddol gan gynnwys ffyrdd, palmentydd a phontydd.**

- Amcangyfrifir y byddai clirio'r ôl-groniad o atgyweiriadau ffyrdd yn Sir Fynwy yn costio mwy na £80 miliwn. Fel llawer o Gynghorau, nid oes gennym y cyllid i wneud popeth yr hoffem ei wneud.
- Er hynny, yn ein cyllideb ddiweddaraf rydym wedi ymrwymo £2 filiwn ychwanegol o fuddsoddiad cyfalaf, wedi'i wasgaru dros dair blynedd, i drwsio tyllau yn y ffordd a gwella cyflwr ffyrdd ledled y sir. Mae hyn yn ychwanegol i'r £5 miliwn yr oeddem eisoes wedi ymrwymo iddo. Mae'n gam ymarferol i helpu i wneud teithiau bob dydd yn fwy diogel ac yn llyfnach i drigolion.
- Yn 2026/27 byddwn yn buddsoddi dros £10 miliwn o wariant cyfalaf yn ein seilwaith. Bydd hyn yn ein galluogi i gwblhau'r gwaith o adeiladu'r bont deithio lesol newydd rhwng y Fenni a Llan-ffwyst, atgyweiriadau i'r Bont Gadwyn, ffyrdd mwy diogel yn Gwndy, a chysylltiadau bysiau a rheilffyrdd gwell yng Nghas-gwent.



monmouthshire
sir fynwy

# Lle Diogel i fyw

Lle Diogel

Byw lle mae gan bobl gartref a chymuned lle maent yn teimlo'n ddiogel



**Gwnaethom ddweud y bydden ni'n cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy o ansawdd da.**

- Rydym am i bobl ifanc gael mwy o gyfle i aros, byw ac adeiladu eu dyfodol yma yn Sir Fynwy. Mae ein Cynllun Datblygu Lleol Amnewid yn nodi cyfeiriad clir ar gyfer dyfodol y sir. Os caiff ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd yn helpu i ddatgloi datblygiad 2,130 o gartrefi newydd gyda 50% ohonynt yn dai fforddiadwy i bobl sydd angen tai.
- Yn y cyfamser, rydym eisoes yn gwneud cynnydd. Ers 2022, mae 224 o dai fforddiadwy wedi cael caniatâd cynllunio, gan helpu mwy o bobl i gael mynediad at dai diogel, sicr a fforddiadwy.

**Dywedon ni y bydden ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cartrefi rhent cymdeithasol a dod â mwy o eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.**

- Rydym wedi cyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor i annog perchnogion a landlordiaid i ddefnyddio tai gwag eto.
- Mae hyn eisoes wedi helpu i leihau nifer yr eiddo gwag hirdymor o 541 i 447.
- Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda landlordiaid lleol i gynyddu'r cyflenwad o lety dros dro a fforddiadwy, gan helpu mwy o bobl i ddod o hyd i le diogel i fyw.

**Dywedon ni y bydden ni'n mabwysiadu Ailgartrefu Cyflym i atal digartrefedd a lleihau dibyniaeth ar Wely a Brecwast.**

- Ers lansio ein dull ailgartrefu cyflym ym mis Ebrill 2023, rydym wedi gallu helpu mwy o bobl i aros yn eu cartrefi neu ddod o hyd i ddewisiadau eraill addas.
- Ar gyfartaledd, mae 61% o aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref wedi derbyn cefnogaeth i aros lle maent neu symud i lety mwy diogel a sefydlog bob blwyddyn.

**Dywedon ni y bydden ni'n lleihau'r defnydd o lety gwely a brecwast drwy gaffael mwy o eiddo ar gyfer tai dros dro.**

- Rydym wedi dechrau rhedeg ein llety dros dro ein hunain, sy'n ein helpu i ddiwallu'r galw cynyddol a darparu gwell cefnogaeth i bobl sydd ei angen.



- Ers 2022, mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 89% yn nifer yr aelwydydd y mae eu llety dros dro yn cael ei ddarparu mewn llety gwely a brecwast. Nid ydym bellach yn gosod teuluoedd a phobl ifanc mewn llety gwely a brecwast ac rydym yn gweithio tuag at roi'r gorau i'w ddefnydd arferol, gan gynnig llety hunangynhwysol neu lety a rennir mwy addas yn lle hynny, gyda chefnogaeth i sicrhau cartref parhaol.

**Dywedon ni y bydden ni'n sicrhau bod gan gartrefi newydd a adeiladir yn Sir Fynwy y safonau effeithlonrwydd ynni uchaf.**

- Rydym wedi datblygu a chymeradwyo Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Os caiff ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd yn sicrhau bod tai yn y sir yn y dyfodol yn cynhyrchu allyriadau sero net; gan helpu i dorri carbon, arbed ynni, a gostwng biliau aelwydydd.

**Dywedon ni y bydden ni'n gwella diogelwch cymunedol ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais difrifol.**

- Rydym wedi bod yn gweithio gyda phobl ifanc i fynd i'r afael â phryderon ynghylch troseddau cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan ddod â'r heddlu ac elusennau i'n canolfannau ieuenctid.
- Yng Nghil-y-coed yn 2024 yn dilyn ymyriadau wedi'u targedu, gostyngodd ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Fe wnaethon ni sicrhau cyllid gan y Swyddfa Gartref i ehangu'r fenter Strydoedd Haf Mwy Diogel yng nghanol ein trefi yn 2025.

monmouthshire
sir fynwy

# Lle Cysylltiedig Lle mae Pobl yn Gofalu






**Dywedon ni y bydden ni'n gweithio gyda phartneriaid i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.**

- Mae ein gwasanaeth ail-alluogi oedolion yn cefnogi mwy na 300 o bobl bob blwyddyn, gan eu helpu i adennill hyder ac annibyniaeth. Diolch i'r gefnogaeth hon, nid oes angen gofal cymdeithasol parhaus ar 56.4% o bobl mwyach, hwb gwirioneddol i'w lles a'u bywydau bob dydd .
- Rydym wedi ei gwneud hi'n haws i bobl gael y gofal sydd ei angen arnynt gartref. O ganlyniad, mae oriau gofal heb eu cyflawni wedi gostwng o 804 i ddim ond 132. Rydym bellach yn darparu 98.2% o'r gofal cartref hirdymor y mae pobl yn dibynnu arno.

**Dywedon ni y bydden ni'n darparu cymorth cynnar a gwasanaethau ataliol sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen cymorth hirdymor ar blant a theuluoedd.**

- Mae ein gwasanaeth cymorth cynnar yn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth cyn gynted ag y mae ei angen arnynt. Ar gyfartaledd, mae 50 o deuluoedd yn cael eu cefnogi bob blwyddyn ac mae pob teulu sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi nodi canlyniadau cadarnhaol.

**Dywedon ni y bydden ni'n buddsoddi mewn darparu lleoliadau o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.**

- Rydym wedi agor dau gartref preswyl newydd ac un safle llety â chymorth i bobl ifanc 16 oed a hŷn, gydag un arall ar y ffordd.
- Mae'r lleoliadau mewnol hyn yn helpu plant a phobl ifanc i aros yn Sir Fynwy, neu ddychwelyd iddi, wedi'u hamgylchynu gan eu cymunedau a'u rhwydweithiau cymorth.
- Rydym wedi gwella'r pecyn cymorth a'r cyllid ar gyfer gofalwyr maeth Sir Fynwy. Mae hyn yn golygu bod mwy o blant sydd angen gofal maeth bellach yn cael eu lleoli gyda'n gofalwyr maeth ein hunain, yn hytrach na gydag asiantaethau annibynnol.

**Dywedon ni y byddem yn cefnogi'r gwaith rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn effeithiol.**

- Rydym wedi ehangu ein gwasanaeth integredig arbenigol fel y gall pobl fwy bregus gael y cymorth acíwt sydd ei angen arnynt yn eu cartref eu hunain. Drwy wneud hynny, mae nifer y dyddiau gwely ysbyty a ddefnyddir gan drigolion Sir Fynwy sy'n iach yn feddygol wedi gostwng o uchafbwynt o 3,392 ym mis Tachwedd 2024 i 1,179.
- Ers 2022, mae mwy na 1,000 o gartrefi wedi derbyn technoleg gynorthwyol sy'n rhoi tawelwch meddwl, gan helpu pobl i aros yn annibynnol am hirach. Y canlyniad yw gostyngiad yn y galw am ofal cartref, gyda rhai trigolion hŷn heb fod angen mynd i gartrefi gofal i ffwrdd o'u teulu a'u cymuned mwyach.

**Dywedon ni y bydden ni'n darparu cyfleuster gofal preswyl o ansawdd uchel i bobl â dementia.**

- Rydym wedi agor Parc Severn View, cartref gofal dementia arbenigol 32 gwely yng nghanol cymuned newydd ger Cil-y-coed. Mae'r cartref, a gynlluniwyd i ddarparu gofal a chymorth hanfodol mewn amgylchedd cartrefol a chariadus, eisoes wedi ennill gwobr bensaernïaeth genedlaethol am ailddiffinio sut beth yw byw mewn cartref gofal.

**Dywedon ni y bydden ni'n cefnogi gofalwyr ac yn hyrwyddo bywydau iach a gweithgar i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd.**

- Rydym wedi gwella'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr gan eu helpu i aros yn gefnogol ac yn gysylltiedig wrth gyflawni eu rôl hanfodol. Mae'r nifer sydd wedi cofrestru gyda'n tîm wedi tyfu 6% dros y flwyddyn ddiwethaf gyda mwy na 1,000 o bobl bellach yn cael cymorth.

**Dywedon ni y bydden ni'n hyrwyddo bywydau iachach a mwy o weithgarwch corfforol drwy ein cyfleusterau chwaraeon a hamdden.**

- Er gwaethaf pwysau ariannol, rydym wedi buddsoddi £1.3 miliwn mewn canolfannau hamdden ers 2022, gan wella campfeydd, mannau chwarae a phyllau nofio ledled y sir.
- Dyna gampfa awyr agored newydd yng Nghas-gwent, ardal gemau aml-ddefnydd yng Nghil-y-coed, ac uwchraddiadau i'n pyllau nofio yng Nghas-gwent a'r Fenni. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu mwy o bobl i aros yn egnïol, yn iach ac yn gysylltiedig.

**Dywedon ni y bydden ni'n gwneud gwelliannau yng Nghanolfan Hamdden Cil-y-coed.**

- Er bod ceisiadau am gynigion adnewyddu mawr wedi bod yn aflwyddiannus, rydym wedi parhau i uwchraddio Canolfan Hamdden Cil-y-coed gyda goleuadau llifogydd LED newydd, ardal chwaraeon aml-ddefnydd, stiwdio feicio newydd a chae 3G newydd sbon.
- Byddai cynigion yn y dyfodol yn ceisio gwella'r cyfleusterau ffitrwydd yng nghanolfan hamdden Cil-y-coed ac adeiladu parc sglefrio newydd.

monmouthshire
sir fynwy

# Lle i Ddysgu






**Dywedon ni y bydden ni'n gwella presenoldeb, yn lleihau gwaharddiadau ac yn cryfhau cynhwysiant.**

- Mae ein gwasanaeth lles addysg yn cefnogi disgyblion agored i niwed yn ôl i'r ysgol, gan weithio'n agos gyda theuluoedd i ddarparu cymorth wedi'i deilwra.
- Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi gwella'n gyson, gan gyrraedd 94.1% yn haf 2024/25, i fyny o 93.6% y flwyddyn flaenorol. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig, ond mae wedi codi o 88.2% yn 2023/24 i 90.1% erbyn haf 2024/25. Mae'r rhain yn gyson ymhlith y lefelau presenoldeb gorau yng Nghymru.

**Dywedon ni y byddem yn sicrhau bod ein darpariaeth addysg yn diwallu anghenion grwpiau agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.**

- Mae dwy Uned Atgyfeirio Disgyblion sydd newydd eu hadnewyddu - un yng ngogledd ac un yn ne'r sir - bellach yn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd dysgu a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sy'n methu mynychu ysgol brif ffrwd. Rydym yn eu helpu i barhau i ymgysylltu ag addysg gan wella eu hyder a'u dewisiadau ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau ifanc.

**Dywedon ni y bydden ni'n gwella canlyniadau i blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.**

- Mae ein dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n dda yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae eu perfformiad yn y categori Capio 9 (mesur o gyrhaeddiad ar draws ystod o gymwysterau gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth) wedi bod yn uwch neu'n unol â dysgwyr tebyg ledled Cymru.
- Ers 2022, mae ysgolion wedi gwneud cynnydd gwirioneddol wrth fynd i'r afael ag effaith tlodi, gan ddefnyddio dulliau sydd wedi'u teilwra i'w cymunedau. Gan weithio'n agos gydag asiantaethau allanol ac elusennau lleol, mae llawer wedi diweddaru eu polisïau i leddfu'r pwysau ariannol ar deuluoedd gan gynnwys ailgylchu gwisg ysgol a theithiau ysgol cost isel.

**Dywedon ni y bydden ni'n moderneiddio ein hystâd ysgolion i fod yn addas ar gyfer y dyfodol.**

- Rydym wedi agor Ysgol newydd y Brenin Harri VIII yn y Fenni, sydd yn ysgol sero net. Mae buddsoddiad o £70 miliwn wedi creu campws o'r radd flaenaf sy'n darparu addysg i blant a phobl ifanc 3–19 oed, gan gynnwys darpariaeth bwrpasol ar gyfer 71 o ddisgyblion ag anghenion cymhleth.

**Dywedon ni y bydden ni'n cynyddu'r ddarpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.**

- Agorwyd Ysgol Gymraeg Trefynwy ym mis Medi 2024, gan rannu safle gydag Ysgol Gynradd Overmonnow yn Nhrefynwy. Gall yr ysgol ddarparu lle i hyd at 60 o ddisgyblion ac mae ganddi 24 o blant ar y gofrestr eisoes, gan gynnwys 15 yn y feithrinfa. Mae'n parhau i dyfu wrth i fwy o deuluoedd ddewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir.

**Dywedon ni y bydden ni'n cefnogi pob dysgwr i gyflawni eu potensial.**

- Ar draws Sir Fynwy, mae pobl 15 a 16 oed ymhlith y rhai sy'n perfformio orau yn eu TGAU a chymwysterau cyfatebol. Roedd y radd gyfartalog ar gyfer arholiadau Saesneg a rhifedd yn uwch na gradd C a chyflawnodd dros 25% o ddysgwyr 5 TGAU gradd A*-A.
- Rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer rhaglen Allgymorth Ysbrydoli sy'n cefnogi pobl ifanc sydd â phresenoldeb isel yn yr ysgol, gan weithio gyda nhw i oresgyn yr heriau hyn, gyda'r nod o ddychwelyd i addysg amser llawn a chyflawni eu potensial.

Rydym yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'n perfformiad. Os hoffech gymryd rhan yn y broses honno, cofrestrwch ar ein platfform Gadewch i Ni Sgwrsio am Sir Fynwy a bydd manylion yn cael eu rhannu cyn gynted ag y byddant ar gael. Yn y cyfamser, os hoffech rannu eich barn a chymryd rhan mewn sgyrsiau am y polisïau a'r strategaethau sy'n effeithio arnoch chi, mae modd dod o hyd i'r ymgynghoriadau a'r digwyddiadau ymgysylltu diweddaraf ar-lein ac wyneb yn wyneb yma: **www.sgwrsioamsirfynwy.co.uk**

**SGWRSIO AM SIR FYNWY**
Eich Cymuned, Eich Llais